



Seminar dysgu a rennir ar chwythu'r chwiban

Agenda

09.00 Cofrestru, te a choffi a rhwydweithio

09.30 Prif Araith

Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

09.45 Sesiwn enghreifftiol llawn

Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Golygfa'r Môr yn gofalu am ardal ddifreintiedig sydd â chyfraddau uchel o ddiweithdra. Gyda'r cyngor ar arfordir llawn golygfeydd, mae tîm Iechyd yr Amgylchedd yn cael eu cadw'n brysur iawn gydag archwiliadau ar fwytai a siopau prynu bwyd i fynd allan, ymhlith pethau eraill. Fel pob Cyngor arall, mae Cyngor Golygfa'r Môr yn wynebu toriadau sylweddol i'w gyllideb ac yn chwilio am arbedion ariannol ac effeithlonrwydd. Mae tîm Iechyd yr Amgylchedd yn cyflwyno system TG newydd ar gyfer monitro a gorfodi arolygiadau ac mae'n ystyried y posibilrwydd o leihau nifer ei staff, gan gynnwys diswyddiadau. Mae pwysau gwaith cynyddol ac ansicrwydd am y dyfodol yn cael effaith ar forâl y staff.

Yn y sesiwn hwn, bydd aelodau'r seminar yn gweld sefyllfa real ar waith, gydag aelod o staff yn mynegi pryderon wrth ei Reolwr. Bydd pawb yn cael cyfle i drafod y sefyllfa a bydd ein panel arbenigol, Cathy James, Public Concern at Work, ac Ian Hughes, Swyddfa Archwilio Cymru, yn rhannu eu barn am sut ddylid trin y datgeliad.

10.30 Dewis i fynychu dau o'r gweithdai canlynol:

Beth yw chwythu'r chwiban a pham mae'n bwysig? Cathy James, Public Concern at Work (PCaW)

Ar ôl y sesiwn llawn, bydd Cathy yn trafod y meysydd canlynol yn fanylach:

- Dull PCaW o weithredu
- Y Dilema
- Chwalu pob myth
- Y warchodaeth gyfreithiol
- Disgwyliadau polisi
- Sut rydych yn gwybod ei fod yn gweithio?

Bydd aelodau'r seminar yn gadael y gweithdy hwn gyda dealltwriaeth well o chwythu'r chwiban, beth mae'n ei olygu i sefydliad, a'r polisiau a'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn drwy gydol y broses.

Pa mor hyderus ydych chi y byddai eich sefydliad yn gwneud y peth iawn pan mae cyflogai eisiau chwythu'r chwiban?

Neil Gray, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon a Duncan Warmington, y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Dileu Llygredd a Thwyll (TEICCAF)

Yn y gweithdy hwn, bydd Neil Gray o Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon yn trafod sut beth yw arfer da sy'n galluogi sefydliadau i gefnogi cyflogeion a hefyd rheoli risgiau chwythu'r chwiban.

- Ydi diwylliant y sefydliad yn cefnogi chwythu'r chwiban?
- Ydi eich sefydliad yn ymateb yn effeithiol i staff sy'n chwythu'r chwiban?
- Oes gennych chi system Lywodraethu briodol?
- A sut rydych yn gwybod?

Wrth adael y gweithdy hwn, bydd aelodau'r seminar yn gwybod sut mae sefydlu'r diwylliant priodol, sut mae delio â staff sy'n mynd ati i chwythu'r chwiban, sut beth yw llywodraethu effeithiol a sut mae cael sicrwydd bod y sefydliad yn rheoli risg yn effeithiol.

**Persbectif Rheolwr ar Chwythu'r Chwiban
Ian Hughes, Swyddfa Archwilio Cymru**

Bydd y gweithdy hwn yn gyfle pellach i aelodau'r seminar edrych ar y materion a gafodd sylw yn y sesiwn llawn, gan gynnwys trafodaeth fanylach ar y canlynol:

- Datgeliadau ag iddynt sawl agwedd
- Polisiau ac ymchwiliadau
- Y gwahaniaeth rhwng bod yn ddienw a chyfrinachedd
- Cefnogaeth i staff ar ôl datgeliad, gan gynnwys goblygiadau datgeliadau sy'n cael eu trin yn wael
- Ymchwiliad, adborth a chanlyniad

Wrth adael y gweithdy hwn, bydd aelodau'r seminar wedi'u paratoi'n well i reoli datgeliad yn effeithiol, o'r cyswllt cyntaf un hyd at y canlyniad.

11.30 Ail gyfle i fynychu un o'r gweithdai uchod

12.30 'Galw i Weithredu' ar gyfer yr aelodau – sesiwn llawn

13.00 Bwffe a Rhwydweithio

Manylion Cysylltu

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Davies ar 01244 525986 neu e-bost bethan.davies@archwilio.cymru